

Cwestiynau ac Atebion i Rieni / Gofalwyr ar Brofion Llif Unffordd

Beth yw symptomau Covid 19?

- peswch parhaus, newydd
- tymheredd uchel
- colled neu newid i'ch synnwyr arogli neu flasau

A wyddoch chi? Dydy hyd at un rhan o dair o bobl sydd â choronafeirws ddim yn cael unrhyw symptomau!

Beth yw Prawf Llif Unffordd?

Mae Prawf Llif Unffordd (neu LFT) yn brawf sydd yn chwilio am bresenoldeb Covid-19. Mae'n brawf sydyn ac mae wedi ei gynllunio i gael ei ddefnyddio gan unigolyn nad oes ganddynt symptomau. Mae'r profion 'llif unffordd' yn hawdd a sydyn.

Oes raid i fy mhlentyn gymryd y profion?

Nac oes. Dydy'r profion ddim yn orfodol. Fodd bynnag, gobeithiwn y bydd y mwyafrif o rieni yn rhoi eu caniatâd. Mae Profion Llif Unffordd yn helpu i nodi pobl sydd â Covid-19 cyn iddynt ddatblygu symptomau a bydd hynny yn helpu i leihau'r nifer o bobl y maent yn ei basio ymlaen iddynt, gan leihau'r gyfradd trosglwyddo. Po fwyaf y bydd y gyfradd trosglwyddo yn cael ei gostwng, y cyflymaf y gallwn fynd yn ôl i'r arfer.

Yn ogystal â'r mesurau amddiffynnol eraill rydym yn eu cymryd, bydd y profion hyn o gymorth i staff a disgyblion aros yn yr ysgol / coleg yn ddiogel. Drwy brofi byddwn yn helpu i stopio'r feirws rhag lledaenu ac yn cadw ein ysgol ar agor mor ddiogel â phosib.

A yw'r system brofi yn golygu y bydd yr ysgol yn stopio defnyddio'r mesurau diogelwch eraill sydd wedi eu rhoi yn eu lle i rwystro trosglwyddo Covid?

Nac ydy. Rhaid i'r holl ragofalon eraill aros yn eu lle ac mae'n rhaid i ni weithio gyda'n gilydd fel staff a rhieni i roi'r neges i'n myfyrwyr, os ydynt yn cael canlyniad negyddol, rhaid iddynt barhau i fod yn ofalus a dilyn y mesurau diogelwch eraill.

Pa mor effeithiol yw Profion Llif Unffordd?

Mewn astudiaethau dilysu a gynhaliwyd gan Brifysgol Rhydychen a Iechyd Cyhoeddus Lloegr, dangoswyd eu fod y profion llif unffordd mor gywir yn nodi achos ag yw prawf

PCR (sbesiffigedd 99.68%). Mae sensitifrwydd is gan y profion ond maent yn well am ganfod achosion pan fydd llwyth feirysol uwch gan unigolyn, a dyna pam fod angen profi yn aml.

Beth mae'r prawf yn ei olygu?

Swab o gefn y gwddf a'r ffroenau yw'r Prawf Llif Unffordd.

Lle dylid cymryd y prawf?

Dylid cymryd y prawf gartref. Mae'r prawf yn cymryd tua 30 munud.

Pryd dylid cymryd y prawf?

Cynghorir pobl i gymryd y prawf ar yr un diwrnodau bob wythnos. Rhaid i'r dyddiau fod 3 – 4 diwrnod ar wahân. Bydd yr ysgol yn cynghori ar y diwrnodau y maent am i'r profion gael eu cymryd.

Mae fy mhlentyn wedi cael prawf Covid positif yn y gorffennol. A oes modd iddynt gymryd rhan yn y cynllun Profi Llif Unffordd?

Os ydynt wedi cael prawf PCR positif, **NI** ddylent brofi eto (gan gynnwys gyda Phrawf Llif Unffordd) am 90 diwrnod **ONI BAI** eu bod yn datblygu symptomau newydd.

Mae symptomau Covid 19 gan fy mhlentyn, a oes modd iddynt fynychu'r ysgol os ydynt yn cael Prawf Llif Unffordd negyddol?

Nac oes. Os oes symptomau Covid gan eich plentyn dylent aros gartref a threfnu prawf PCR. Ni ddylent fynd i'r ysgol hyd yn oed os ydyn nhw wedi profi'n negyddol ar Brawf Llif Unffordd.

Sut i gymryd Prawf Llif Unffordd Covid-19

Rhaid i chi ddefnyddio swab i gymryd sampl o gefn eich gwddf ac o'ch trwyn.

Unwaith y byddwch wedi cymryd y sampl, rydych yn rhoi'r swab mewn hylif echdynnu ac yna ar bad papur y prawf llif unffordd.

Byddwch yn gweld y canlyniad ar y ddyfais 30 munud ar ôl ichi roi'r sampl yn y ddyfais. Does dim angen anfon y sampl i labordy.

[Gwylwch fideo fer ar sut i gymryd y prawf](#)

Sut i ddehongli'r canlyniadau

Darlun yn dangos y canlyniadau allai ymddangos ar brawf llif unffordd

Mae'r linell ar y sribyn profi yn wan iawn.

Dylid trin llinell wan fel llinell.

Anghofiais ddarllen fy mhrawf ar ôl 30 munud.

Bydd yn rhaid i chi ail gymryd eich prawf. Ystyrir y prawf yn annilys os bydd yn cael ei ddarllen ar ôl 30 munud.

Does dim llinell reoli ar y sribyn profi.

Mae'r prawf yn annilys a bydd angen ei ailadrodd.

Pryd sydd angen i fi roi fy nghanlyniad ar y porthol?

Rhaid i chi uwchlwytho eich canlyniad (positif, negyddol neu annilys) i'r Porthol cyn gynted ag y byddwch wedi cymryd eich prawf. Bydd canlyniad prawf positif yn mynd at Brofi Olrhain Diogelu Sir Wrecsam a byddant yn cysylltu gyda'r achos positif..

Help! Mae canlyniad y Prawf Llif Unffordd yn bositif!

- Rhaid adrodd am Brawf Llif Unffordd positif i'r ysgol ar unwaith. Rhaid i'ch plentyn ac unrhyw frodyr a chwiorydd **beidio â** dod i'r ysgol
- Bydd angen i chi drefnu prawf Covid arferol ar eu cyfer mewn Canolfan brofi leol ble bydd prawf Adwaith Cadwynol Polymerasau (PCR) yn gallu cadarnhau canlyniad y Prawf Llif Unffordd. Mae'r profion PCR hyn yn cael eu prosesu mewn labordy ac yn cadarnhau'r prawf llif unffordd positif ac yn ogystal bydd yn gallu dweud pa amrywiolyn o Covid sydd gan eich plentyn.
- Dylid cymryd y prawf PCR o fewn 24 awr. Gellir trefnu hwn ar-lein drwy ddilyn y ddolen hon

<https://gov.wales/getting-tested-coronavirus-covid-19> or by telephoning 119.

Oes raid i ni hunan-ynysu fel aelwyd tra byddwn yn aros am ganlyniad y PCR?

Oes. Rhaid i'r holl deulu hunan-ynysu os bydd eich plentyn yn cael Prawf Llif Unffordd positif.

Beth sy'n digwydd os yw'r prawf PCR yn Negyddol?

Byddant yn cael aros yn yr ysgol a chymryd rhan yn eu gweithgareddau fel arfer.

Beth os bydd fy mhlentyn yn datblygu symptomau rhwng Profion Llif Unffordd?

Mae'r Prawf Llif Unffordd ar gyfer unigolion sydd **heb unrhyw symptomau.**

Os yw eich plentyn yn datblygu symptomau unrhyw bryd (fel tymheredd uchel; peswch newydd parhaus; neu'n colli eu synnwyr arogli a blasu neu fod newid yn y synhwyrau) rhaid iddynt hunan-ynysu ar unwaith, a threfnu prawf PCR drwy ffonio 119 (Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon) neu 0300 303 2713 (Yr Alban) neu fynd i

<https://www.gov.uk/getcoronavirus-test>

Cyngor ar gyfer Profion Llif Unffordd

- **Peidiwch â defnyddio Prawf Llif Unffordd os oes gennych symptomau Covid 19. Mewn achosion o'r fath rhaid trefnu prawf PCR**
- **Peidiwch â gadael i rywun arall ddefnyddio eich cit**
- **Peidiwch byth â defnyddio Prawf Llif Unffordd fel ffordd o 'glirio' eich hun ar gyfer mynd i'r ysgol neu i dorri amodau Cyfnod Clo neu reolau Cadw Pellter Cymdeithasol.**
- **Dydy canlyniad negyddol ddim yn gwarantu nad yw'r coronafeirws arnoch. Mae'n bosib na fydd y prawf yn canfod y feirws os mai yn ddiweddar y cawsoch eich heintio neu eich bod yn y cyfnod magu adeg y prawf.**
- **Rhaid i chi barhau i ddilyn rheolau coronafeirws, gan gynnwys:**
 - **golchi dwylo'n rheolaidd**
 - **Cadw pellter cymdeithasol**
 - **gwisgo mygydau wyneb lle bo'r angen**